Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Twtlol
# Yr Hen Ysgol
# Pentrefoelas
# Betws Y Coed
# Conwy
# LL24 0HY

## Dyddiad yr arolygiad:

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Meithrinfa Twtlol sy'n cwrdd mewn dau adeilad ym Mhentrefoelas, yn awdurdod lleol Conwy. Mae'r feithrinfa yn eiddo preifat ac yn darparu gofal ar gyfer plant 3 mis oed hyd at 4 oed, gyda gwasanaeth ar ôl ysgol i blant hyd at 12 oed. Mae wedi'i chofrestru i dderbyn hyd at 28 o blant fesul sesiwn ac yn cyflogi 14 o staff.

Mae'r lleoliad yn darparu addysg i blant tair a phedair oed rhwng 9.15 a 11.45 y bore, pum niwrnod yr wythnos. Mae 5 plentyn yn cael addysg blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod. Cymraeg yw prif iaith gartref rhan fwyaf o blant y lleoliad. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol. Mae tri aelod o staff cymwysedig yn gyfrifol am addysg i blant tair oed, gan gynnwys y rheolwr sydd yn ei swydd ers Rhagfyr 2016.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Mehefin 2017 a gan Estyn ym mis Gorffennaf 2014.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- bron pob un plentyn yn hapus iawn ac yn teimlo'n ddiogel yno
- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- perthynas waith hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant
- rhan fwyaf y plant yn gwrando'n briodol ar storïau ac yn ymateb yn fedrus
- y rhan fwyaf yn trin ystod o offer bach a chyfarpar ysgrifennu yn hyderus
- medrau rhif rhan fwyaf y plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu
- bron pob un plentyn yn ymddwyn yn dda
- profiadau dysgu eang a chytbwys yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol
- ymarferwyr yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda a chyson

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y perchennog, y rheolwr a'r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn cefnogi holl waith y lleoliad yn llwyddiannus iawn
- pawb yn cydweithio'n hapus iawn fel tîm
- staff yn deall ac yn cyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau'n dda
- yr holl staff yn barod iawn i weithredu ar unrhyw syniadau, cyngor a chanllawiau
- gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd
- y lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid allanol
- perthynas gadarn iawn rhwng yr holl staff a rhieni'r plant
- cydweithio llwyddiannus rhwng y lleoliad ac athrawes gyswllt yr awdurdod lleol
- gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn cefnogi datblygiad y staff yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer datblygu medrau'r plant yn ystod gweithgareddau a phrofiadau yn yr ardal allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod sesiynau, mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae medrau llythrennedd rhan fwyaf y plant yn gadarn. Mae bron pob un plentyn yn gwrando'n dda ar storïau ac yn ystod amser cylch, gan ymateb yn frwdfrydig i drafodaethau. Maent yn siarad yn glir ac yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion gan ddefnyddio cystrawen, geirfa naturiol a brawddegau llawn yn gyson. Mae bron pob un yn ymuno â hwiangerddi a chaneuon Cymreig gan ddilyn symudiadau corfforol priodol. Maent yn dod o hyd i'w henwau heb gymorth pan fyddant yn hunangofrestru ac mae'r lleiafrif yn adnabod enwau eu cyfoedion yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y plant yn dangos diddordeb a mwynhad wrth drafod llyfrau gan ymateb yn frwdfrydig i storïau ar y cyd. Maent yn defnyddio dysgu blaenorol yn fedrus wrth ymateb i gwestiynau'r ymarferwyr ac yn cyfeirio at brif ddigwyddiadau storïau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth sôn am helyntion yr iâr yn stori 'Magi'n mynd am dro.' Mae'r rhan fwyaf yn creu marciau yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc, pensiliau lliw a phensiliau sialc. Mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio siapau a llythrennau cyfarwydd yn effeithiol wrth ysgrifennu eu henwau ac wrth greu lluniau o'u hunain a'u teulu.

Mae medrau rhif rhan fwyaf y plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu. Maent yn adrodd rhifau i 10 yn llwyddiannus ac yn cyfateb rhif â gwrthrychau hyd at 10 yn gywir. Mae rhan fwyaf y plant yn trin a thrafod arian dychmygus yn briodol wrth chwarae rôl yn 'siop y fferm' yn yr ardal allanol ac yn dilyn patrymau wrth drefnu tedis yn ôl maint a lliw yn llwyddiannus. Maent yn adnabod lliwiau yn dda ac yn dilyn trefn dyddiau'r wythnos yn gadarn. Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd yn briodol er mwyn adeiladu siapau tri dimensiwn, er enghraifft wrth ddefnyddio sgwariau a phetryalau i greu corlan ar gyfer anifeiliaid y fferm yn y byd bach. Mae llawer yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth drafod gwaith rhifedd, er enghraifft trwy ddefnyddio bach, mawr a chanolig pan fyddant yn trafod maint gwartheg wrth gyfateb lluniau o anifeiliaid fferm. Mae medrau datrys problemau rhan fwyaf y plant yn datblygu'n briodol, er enghraifft wrth ddosbarthu wyau i focsys gan gyfateb i'r rhif cywir.

Mae medrau TGCh rhan fwyaf y plant yn datblygu'n briodol wrth iddynt drin a thrafod llechen gyfrifiadurol yn llwyddiannus. Mae llawer yn dechrau defnyddio teganau rhaglenadwy yn gadarn gyda chymorth, er enghraifft wrth wneud y tegan i symud ar draws map syml o'r fferm. Mae bron pob un plentyn yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o bwrpas offer go iawn wrth chwarae rôl, er enghraifft trwy ddefnyddio teganau fel ffôn symudol a'r til yn 'Siop Fferm Twtlol' yn yr ardal allanol.

Mae gan ran fwyaf y plant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn rheoli offer mawr yn gadarn wrth chwarae rôl tu fewn a thu allan, er enghraifft wrth ddefnyddio tractor a whilber fel rhan o thema'r fferm. Mae rhan fwyaf y plant yn adeiladu wal gerrig o gerrig meddal yn yr ardal allanol gan ddangos medrau ffisegol a medrau meddwl da.

Maent yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth gadarn mewn amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel brwshys paent, sialc a deunyddiau eraill er mwyn creu model o iâr allan o does, plu a deunyddiau eraill.

**Lles: Da**

Mae bron pob un plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn hapus iawn yno. Maent yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n gyffyrddus iawn o fewn awyrgylch ofalgar a chartrefol. Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda iawn, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais. Maent yn dysgu cymryd eu tro, rhannu ac arfer hunanreolaeth yn dda. Mae rhan fwyaf y plant yn barod iawn i helpu tacluso pan ofynnir iddynt, ac yn dangos parch a gofal i'r holl offer sydd ar gael. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob un yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn ddiolchgar am y bwyd a'r diod ac yn dangos parch at eraill yn ystod y cyfnod hwn. Mae bron pob un plentyn yn cymryd cyfrifoldeb am eu hylendid o ddifrif trwy olchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac wrth frwsio'u dannedd. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach trwy fwyta ffrwyth ac yfed dŵr yn ystod amser byrbryd.

Mae bron bob un plentyn yn dangos agweddau da tuag at ddysgu. Maent wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac mae llawer yn dyfalbarhau ac yn canolbwyntio am gyfnodau rhesymol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth bysgota am hwyaid yn y twba dŵr ac wrth wrando ar storïau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol da wrth gymryd rhan weithredol yn eu dysgu ac yn dewis gweithgareddau yn hyderus. Trwy ddewis eu llyfrau eu hunain o'r llyfrgell deithiol ac ymgymryd â dyletswyddau 'helpwr y dydd' wrth weini yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn dangos aeddfedrwydd a medrau dysgu annibynnol effeithiol.

Mae bron pob un plentyn yn mwynhau ymchwilio a chwarae yn yr ardal allanol, yn enwedig wrth chwarae rôl yn y gegin fwd a thrin offer fel whilber. Maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod chwarae rhydd ac yn hyderus wrth ofyn am gymorth gan oedolyn yn ôl yr angen. Mae rhan fwyaf yn dangos agweddau dysgu ymchwiliol cadarnhaol wrth iddynt ddarganfod dros eu hunain, er enghraifft trwy gymysgu gwahanol liw paent er mwyn gwneud llun. Mae llawer o blant yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ofalu am yr amgylchfyd trwy ailgylchu papur trwy bin arbennig 'Arthur Ailgylchu' ac wrth gludo dillad a nwyddau eraill i ganolfan ailgylchu leol. Maent hefyd yn dysgu sut i ofalu am blanhigion yn yr ardd er mwyn gwerthfawrogi byd natur o'u cwmpas.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy ddefnyddio ystod o themâu ysgogol a diddorol, mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb bron pob un plentyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae thema'r 'fferm' yn manteisio ar brofiadau a diddordebau'r plant yn effeithiol. Mae'r defnydd o lais y dysgwyr yn ddiweddar yn cyfoethogi hyn yn dda ac yn annog y plant i feddwl dros eu hunain. Mae'r defnydd diweddar o'r 'cynllun bach' ar gyfer rhieni yn amlygu gweithgareddau dysgu yn dda. O ganlyniad, mae rhieni yn medru cefnogi eu plant yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae’r profiadau dysgu yn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn trafod gyda’i gilydd yn rheolaidd i gyfrannu at y cynllunio er mwyn adeiladu’n grefftus ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant. Yn ddiweddar, mae’r defnydd effeithiol o arfarniadau o brofiadau dysgu blaenorol, ynghyd ag arsylwadau’r ymarferwyr, yn sicrhau bod y cynllunio yn ymateb i ofynion y plant yn effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy’n ysgogi bron bob plentyn i ddarganfod dros eu hunain. Mae’r cynlluniau yn nodi amcanion dysgu clir ar gyfer gweithgareddau ffocws a phrofiadau eraill ynghyd â’r medrau a’r eirfa i’w datblygu.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n effeithiol er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant gan sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau hyn. Maent hefyd yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau corfforol, meddwl a chreadigol trwy ystod o brofiadau dysgu bwriadus. Er enghraifft, mae profiadau dysgu dychmygus, fel chwarae ‘godro llaeth’ trwy ddefnyddio maneg rwber fel cadair y fuwch, yn datblygu medrau llawdriniol mân y plant yn dda. Mae’r ymarferwyr yn dechrau cynllunio cyfleoedd buddiol i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ddyddiol, er enghraifft trwy gefnogi’r plant i ddefnyddio tegan rhaglenadwy yn llwyddiannus. Er hyn, nid ydynt bob tro’n cynllunio ddigon manwl ar gyfer gwneud defnydd effeithiol o’r ardal allanol i ddatblygu’r holl fedrau hyn. Mae’r defnydd o ‘sachau dysgu’ i rieni gefnogi’r dysgu yn y cartref, yn atgyfnerthu’r medrau hyn yn dda, gan gynnwys medrau TGCh.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd amrywiol i ddysgu dangos parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol eraill, er enghraifft trwy ddathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn flynyddol. Mae’r ymarferwyr yn hybu Cymreictod y plant yn llwyddiannus iawn trwy sefydlu ethos Cymreig naturiol o fewn y lleoliad. Yn ogystal â hyn, mae’r plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda phlant yr ysgol leol.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o’r gymuned i gyfoethogi profiadau’r plant. Gwneir defnydd priodol o ymwelwyr ac ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, fel ymweliadau gan yr heddlu. Mae ymweliad â’r goedwig gyfagos a fferm leol, er enghraifft, yn cyfoethogi’r dysgu’n effeithiol ac yn sbarduno diddordeb a chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn iawn o egwyddorion y cyfnod sylfaen a datblygiad plant. Maent yn deall pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion a rhai sy’n cael eu dewis gan blant. Un o gryfderau’r lleoliad yw’r modd mae’r ymarferwyr hyn yn cydweithio’n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un yn deall eu cyfrifoldeb o ran gweithredu’r cynlluniau tymor byr yn effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd cadarn o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i lywio’r dysgu. Mae’r gweithgareddau yn cadw diddordeb bron pob un o’r plant yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddysgu trwy chwarae.

Mae’r ymarferwyr yn modelu’r iaith Gymraeg yn dda ac yn sicrhau cyfleoedd cyfoethog i ymestyn iaith y plant yn gyson. Mae hyn yn creu awyrgylch naturiol Cymreig o fewn y lleoliad lle mae bron pob un o’r plant yn datblygu eu medrau iaith

yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn siarad â nhw yn gyson ac yn darparu digon o gyfleoedd iddynt ymateb i gwestiynau agored. Mae hyn hefyd yn sicrhau eu bod yn datblygu medrau meddwl y plant yn llwyddiannus yn ogystal â'u medrau cyfathrebu.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer asesu cynnydd y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn canmol plant ar lafar yn gyson ac yn eu holi'n fedrus yn ystod y sesiwn. Maent yn cadw cofnodion buddiol o gynnydd y plant yn ystod y sesiynau ac yn eu defnyddio'n fedrus i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn adnabod anghenion y plant yn dda ac yn manteisio ar bob cyfle i'w herio i gyflawni yn ôl eu hoed a'u gallu.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad trwy sgyrsiau rheolaidd gyda'r ymarferwyr ac yn ystod diwrnodau arbennig. Mae'r defnydd diweddar o adroddiadau cryno ar gyfer rhieni yn crynhoi cynnydd y plant bob pythefnos yn werthfawr. Mae hyn yn sicrhau strwythurau buddiol o ran cyfathrebu rhwng y lleoliad a'r cartref yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth gyfoes am ddatblygiad eu plant. Mae'r lleoliad yn trosglwyddo gwybodaeth briodol ar gynnydd y plant wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgolion lleol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan Feithrinfa Twtlol awyrgylch ofalgar, gynhwysol a theuluol lle mae pob plentyn yn cael eu parchu. Mae trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, parch a thegwch yn llwyddiannus trwy weithgareddau ac arferion dyddiol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd cyson i hyrwyddo hunanhyder y plant ac i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, er enghraifft trwy rannu eu profiadau a'u newyddion yn ystod amser cylch. Mae cyfleoedd buddiol ar gael i bob plentyn ddysgu am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd trwy ailgylchu papur a nwyddau eraill.

Mae'r lleoliad yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini'n llwyddiannus. Mae'r amser byrbryd yn atgyfnerthu hyn yn dda ac yn rhoi cyfle gwerthfawr i'r plant gymdeithasu â'i gilydd ac i gymryd cyfrifoldeb, er enghraifft trwy weithredu fel 'helpwr heddiw' i helpu gosod y bwrdd a chasglu'r platiau a chwpanau i'w golchi. Mae'r plant hefyd yn dysgu am fwydydd iach trwy goginio prydau iachus, er enghraifft paratoi llysiau ar gyfer pryd i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac wrth blannu a choginio llysiau o'u gardd. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o asiantaethau allanol i atgyfnerthu arferion byw'n iach yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cynllun i addysgu'r plant am bwysigrwydd glanhau dannedd.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ôl yr angen. Mae trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau. Mae'r ethos Cymreig yn elfen gref o holl fywyd a gwaith y lleoliad ac mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol sy'n hybu holl fedrau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn paratoi

arddangosfeydd lliwgar sydd yn cynnwys gwaith y plant ac yn dathlu'u llwyddiannau'n dda. Mae'r amgylchedd dysgu tu fewn a thu allan i'r adeilad yn cynnwys cyflenwad da o adnoddau pwrpasol sydd yn cefnogi egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ardaloedd hyn yn cefnogi dysgu annibynnol yn effeithiol ac yn cynnwys cyflenwad da o wrthrychau 'go iawn' fel cerrig mân a phridd. Trwy addasu'r amgylchedd dysgu yn rheolaidd yn ôl y gwahanol themâu, mae'r ymarferwyr yn creu corneli ac ardaloedd dysgu ysgogol sy'n cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus. Maent wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn gadarn. Er enghraifft, mae'r byd bach sy'n seiliedig ar fferm, yn ogystal â 'siop fferm Twtlol', yn atgyfnerthu profiadau'r plant o'u hymweliad i fferm leol yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw'n lân. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae ymwelwyr ac ymweliadau i leoliadau lleol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd buddiol i fynd am dro ar hyd y pentref er mwyn datblygu'u hymwybyddiaeth o'u hardal leol. Mae ymwelwyr, gan gynnwys rhieni a swyddog o'r heddlu, yn rhannu gwybodaeth werthfawr gyda'r plant ac yn cyfoethogi'u profiadau dysgu yn llwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r perchennog, y rheolwr a'r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn cefnogi holl waith y lleoliad yn llwyddiannus iawn. Mae'r weledigaeth a'r holl amcanion yn cael eu rhannu'n llwyddiannus ac yn gosod pwyslais cadarn ar sicrhau lles a chynnydd plant mewn amgylchedd gofalgar a Chymreig. Mae gan y perchennog a'r rheolwr ddisgwyliadau uchel o'r holl staff ac mae pawb yn cydweithio'n hapus iawn fel tîm er mwyn gwireddu'r amcanion hyn yn llwyddiannus. Mae bron pob un yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cyfrannu'n effeithiol i holl waith y lleoliad. Maent yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan y perchennog yn ogystal â'r plant a rhieni. Mae hyn yn cyfrannu at ethos gweithgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r holl staff yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod gwaith y lleoliad yn ogystal â deiliannau a chynnydd y plant. Maent yn rhannu syniadau ar gyfer cynllunio profiadau dysgu yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion a diddordebau'r plant. Yn wir, mae'r holl staff yn barod iawn i weithredu ar unrhyw syniadau, cyngor a chanllawiau er mwyn cynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd addas ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn wythnosol. Mae'r lleoliad yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn er mwyn adnabod yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella. Mae'r perchennog ynghyd â'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gweithredu prosesau hunanarfarnu

buddiol yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys casglu barn a sylwadau rhieni am y lleoliad trwy holiaduron priodol. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol sy'n amlygu cryfderau'r lleoliad yn llwyddiannus o ran safonau plant, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Er hyn, nid yw'r meysydd i'w gwella bob tro'n cael eu hamlygu'n ddigon clir.

Mae'r cynllun gwella yn cynnwys targedau pwrpasol sy'n cyfrannu'n dda i ddatblygu'r ddarpariaeth a gwella deilliannau'r plant. Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu clir a meini prawf llwyddiant priodol er mwyn gwerthuso effaith y gweithgareddau'n fuddiol, yn ogystal â nodi cyfrifoldebau, hyfforddiant a chostau perthnasol. Mae'r staff yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y meini prawf yn rheolaidd ac yn nodi effaith y gweithgareddau yn effeithiol. O ganlyniad i'r prosesau hunanarfarnu cadarn hyn, mae'r lleoliad wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol ac mae effaith blaenoriaethau diweddar yn amlwg yn y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag athrawes ymgynghorol y sir ac yn gweithredu'n brydlon ar unrhyw gyngor neu argymhelliad. Enghraifft o hyn yw'r strategaethau i ddatblygu medrau TGCh disgyblion, yn ogystal â'r dulliau newydd o gynnwys llais y plant yn y cynllunio ar gyfer profiadau dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid ac asiantaethau sy'n cyfrannu'n fuddiol at godi safonau a lles y plant. Mae perthynas dda iawn rhwng yr holl staff a rhieni'r plant. Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod rhieni'n cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â staff a thrafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn. Maent yn derbyn gwybodaeth yn fwy cyson yn ddiweddar am gynnydd eu plant trwy adroddiadau cryno yn ogystal â manylion am gynlluniau'r tymor. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi darparu adnoddau gwerthfawr i rieni sy'n caniatáu iddynt gymryd rôl weithredol yn addysg eu plant. Er enghraifft, mae'r sachau dysgu TGCh yn helpu'r plant ddysgu am sut i reoli tegan rhaglenadwy ac mae'r defnydd o 'Ticw'r tedi' yn annog iddynt sôn am helyntion y cymeriad wrth iddynt ei warchod dros y penwythnos.

Mae'r bartneriaeth gadarn ag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y lleoliad. Mae ymarferwyr hefyd yn cydweithio'n briodol ag asiantaethau arbenigol er mwyn hybu lles ac iechyd y plant yn llwyddiannus.

Mae bron pob rhiant yn teimlo bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol. Mae gan y lleoliad gyswllt agos ag ysgolion cynradd yr ardal gyda'r plant yn ymweld â'i gilydd ar gyfer achlysuron arbennig, er enghraifft i ddathlu diwrnod y llyfr a Dydd Gŵyl Dewi ar y cyd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol iawn o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant yn ogystal ag ymweld â lleoliadau tu allan i'w hardal, er enghraifft trwy fynd am dro yn y goedwig leol yn rheolaidd yn ogystal ag ymweld â chanolfan addysgol er mwyn cefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc.  Mae’r perchennog a’r rheolwr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn cefnogi’r dysgu’n fedrus gan wneud y defnydd gorau o’u profiad a’u harbenigedd.  Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn cefnogi datblygiad y staff yn effeithiol.  O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a dysgu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu.  Er enghraifft, maent wedi mynychu hyfforddiant ar ddatblygu medrau TGCh y plant yn ogystal â dysgu sut i ddatblygu eu medrau corfforol trwy ddawns a symud.

Mae’r perchennog a’r rheolwr yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy’n ymateb i ofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol.  Mae ansawdd yr adeilad, ynghyd â’r ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan, yn ysgogol ac yn cefnogi’r dysgu yn llwyddiannus.

Mae’r perchennog yn cefnogi holl waith y lleoliad yn dda trwy sicrhau gwariant priodol er mwyn diwallu anghenion y plant.   Yn sgil y ddarpariaeth effeithiol, y staff diwyd, a’r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |